

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y cyfarfod	22 Tachwedd 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Y Cyngorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
Awdur yr adroddiad	Liz Thomas, Pennaeth Cyllid ac Archwilio
Teitl	Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Broses y Gyllideb

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiwygiedig fel yr amlinellwyd i'r Aelodau a chynnydd ar y strategaeth gyllidebol ar gyfer pennu cyllideb 2024/25.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ynglŷn â'r strategaeth gyllidebol y mae'r Cabinet wedi'i chymeradwyo ar gyfer pennu cyllideb 2024/25.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r strategaeth gyllidebol y mae'r Cabinet wedi'i chymeradwyo ar gyfer pennu cyllideb 2024/25 a'i hystyried.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Crynodeb o'r wybodaeth a rannwyd ym Mhwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mis Mehefin

- Crynodeb o'r sefyllfa wrth bennu cyllideb 2023/24
- Rhagamcanion Cyllideb wedi'u Diweddarau ar gyfer 2024/25 i 2026/27 gan gynnwys rhagolygon ystod isel, ganolig ac uchel. Roedd hyn yn dangos y sefyllfa waethaf bosibl o fwllch o £28.3m ar gyfer 2024/25 yn unig, gan dybio

bod setliad o 3% a chynnydd o 3.8% yn Nhreth y Cyngor yn cael eu hystyried. Nodwyd y bydd cyllideb 2024/25 yn cael ei gosod mewn cyfnod o chwyddiant uchel hirfaith, ac adenillion i setliadau ariannu ymhell o dan lefelau chwyddiant - sefyllfa nad yw'r Cyngor wedi'i phrofi o'r blaen. Roedd gwaith cynllunio wedi dechrau i leihau gwariant net rhagamcanol o tua £20m.

- Y meysydd allweddol i gyfrannu at Strategaeth y Gyllideb ar gyfer 2024/25, gan gynnwys y Strategaeth Gyfathrebu.

4.2 **Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r cynnydd ym mis Tachwedd**

Ceir crynodeb o'r sefyllfa a phroses y gyllideb yn Atodiad 1, ac fe'i rhannwyd gyda'r holl Aelodau ym mis Hydref. Amlinellir crynodeb o'r sefyllfa ariannol bresennol isod:

- Rydym yn dal i dybio cynnydd o 3% yn y Grant Cynnal Refeniw – nid yw hyn wedi'i warantu a bydd penderfyniadau cyllidebol a wneir gan Lywodraethau'r DU a Chymru yn effeithio arno.
- Mae Treth y Cyngor wedi cynyddu i ganol y rhagolwg, ar 7%. Mae'n bwysig nodi mai ffigwr cynllunio yw hwn ond nad yw wedi'i gytuno eto, a bydd yn golygu ymgynghori pellach.
- Ar ôl ystyried Treth y Cyngor a'r Grant Cynnal Refeniw, y bwlch presennol yw £15.5m.
- Mae cynigion arbed gwerth cyfanswm o £8m wedi'u nodi hyd yma. Bydd llawer o'r rhain yn golygu cwtogi ar wasanaethau a byddant yn destun ymgynghoriad a datblygiad pellach cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Cabinet.
- Mae hyn yn gadael bwlch o tua £7.5m yn weddill.

Bydd y cynigion o arbedion yn cael eu rhannu gyda'r Aelodau ar ôl iddynt gael eu hadolygu mewn cyfarfodydd Cyllideb y Cabinet / Tîm Gweithredol Corfforaethol. Mae dau Weithdy'r Cyngor cyfan yn y dyddiadur cyn y Nadolig a bydd gweithdai penodol pellach hefyd yn cael eu trefnu yn ôl yr angen.

4.3 **Asesiad o Effaith ar Les**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn gosod Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ar gyrrff cyhoeddus. Golyga hyn ei bod yn rhaid i gyrrff cyhoeddus sicrhau eu bod, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried yr effaith y gallent eu cael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae ein proses Asesiad o Effaith ar Les yn galluogi i'r ystyriaethau hyn gael eu cofnodi a'u hystyried. Cyflwynir cynigion

arbedion cyllidebol o effaith sylweddol i'w trafod gyda'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet yn ystod tymor yr hydref / gaeaf 2023-24. Ar ôl symud ymlaen, gofynnir i bob Pennaeth Gwasanaeth gwblhau Asesiad o Effaith ar Les llawn er mwyn helpu i ddeall effaith y gostyngiad yn y gwasanaeth yn well, gan ddatblygu'r mesurau lliniaru posibl ymhellach.

Bydd pob asesiad yn cael ei goladu a'i adolygu gan swyddogion cynllunio strategol a pherfformiad. Bydd hyn yn amlgu unrhyw themâu a phatrymau sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet ar yr effaith gyfanredol mewn perthynas â phob un o'r nodau lles. Bydd hefyd yn edrych ar p'un a oedd yr arbedion yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchoddedig penodol. Caiff ei goladu i ffurfio Asesiad o Effaith ar Les cyffredinol o ran effaith mesurau lleihau cyllideb angenrheidiol.

Dylid nodi bod yr Asesiad hwn yn canolbwyntio ar gydgasgliad lefel uchel o fesurau cyfunol y gyllideb. Mae manylion y broses wedi'u cynnwys yn Atodiad 2

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau'r cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd arni yn gosod y sail ar gyfer gweithgarwch ym mhob maes. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys dyraniadau i ddal i gefnogi blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Daw'r goblygiadau ariannol i'r amlwg wrth weithredu'r strategaeth gyllidebol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Datblygir Asesiadau o Effaith ar Les ar gyfer yr holl arbedion cyllidebol sylweddol a chynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y misoedd i ddod er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth gyflawn. Gweler y manylion yn adran 4.3.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Fel y nodwyd uchod, datblygwyd Strategaeth Gyfathrebu i sicrhau yr ymgynghorir â'r grwpiau canlynol ar yr adegau priodol: Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, y Tîm Arwain Strategol, y Cabinet, Arweinwyr Grŵp, holl Aelodau'r Cyngor, y Fforwm Cyllidebau Ysgolion, Undebau Llafur, ein gweithwyr, busnesau lleol a'n preswylwyr.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Bydd y rhagamcanion a'r strategaeth a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn meddu ar wybodaeth gyflawn ac yn barod i bennu cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r broses gyllidebol ynnddi ei hun yn ddull o reoli risg, gyda'r nod o nodi cynigion ar gyfer y gyllideb eu hasesu a'u cymeradwyo mewn ffordd drefnus a phrydlon. Bydd angen i gynigion ar gyfer y gyllideb nodi risgiau sy'n benodol i'r cynigion hynny a ffyrdd o'u rheoli.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.